**Rhif: WG27620**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Lleoliadau addysgol y tu allan i'r ysgol

Dyddiad cyhoeddi: 23 Chwefror 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 5 Ebrill 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

# Lleoliadau addysgol y tu allan i'r ysgol

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus yn chwilio am wybodaeth i lywio datblygiad cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i rai lleoliadau addysg y tu allan i'r ysgol gofrestru a bod yn destun arolygiadau yn seiliedig ar risg. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **5 Ebrill 2016** fan bellaf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill**.<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Tîm Ysgolion/Lleoliadau Annibynnol<br>Yr Is-Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 0300 060 4400 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. |

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Crynodeb | 2 |
| 2. | Cefndir | 4 |
| 3. | Pam rydyn ni’n cynnig newid? | 4 |
| 4. | Beth rydyn ni’n ei gynnig? | 5 |
| 5. | Cwmpas y cais am wybodaeth – cyfres o gwestiynau | 5 |
| 6. | Nodweddion | 6 |
| 7. | Trothwyon | 6 |
| 8. | Cofrestru ac arolygu | 7 |
| 9. | Gweithgareddau gwaharddedig | 9 |
| 10. | Sancsiynau | 10 |

# 1. Crynodeb

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnig system i gofrestru sefydliadau addysg penodol y tu allan i'r ysgol ac arolygu yn seiliedig ar risg.

1.2 Mae ysgolion a darparwyr gofal plant yn cael eu rheoleiddio o dan gyfraith amddiffyn plant, addysg a/neu gofal plant. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu diogelu'n briodol, gwaherddir arferion niweidiol megis cosb gorfforol a bod gofynion yn eu lle i sicrhau bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal ar y staff. Fodd bynnag, nid yw y trefniadau diogelu hyn yn orfodol mewn lleoliadau addysg y tu allan i'r ysgol, ac o ganlyniad gall plant fod yn fwy agored i risg o niwed.

1.3 Er enghraifft, mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol[1] i gofrestru gyda Gweinidogion Cymru. Er mwyn cael eu cofrestru mae'n rhaid i ysgolion hyn fodloni safonau rheoleiddio gan gynnwys ansawdd yr addysg a ddarperir; lles, iechyd a diogelwch disgyblion; addasrwydd y perchnogion a'r staff; a safle'r ysgol. Hefyd, mae ysgolion annibynnol yn ddarostyngedig i arolygiadau arferol. Fodd bynnag, gwyddom fod yna leoliadau annibynnol sy'n gweithredu yng Nghymru, nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf ysgolion annibynnol, ond sy'n darparu addysg, yn aml yn lle addysg prif ffrwd - a weithiau i gefnogi addysg yn y cartref.

1.4 Yn yr un modd, yr ydym yn ymwybodol o leoliadau eraill sy'n darparu addysg y tu allan i'r ysgol mewn nifer o ffyrdd. Weithiau, gelwir y lleoliadau o'r fath yn ysgolion atodol neu ategol (h.y. y rheini sy'n cynnig cymorth neu addysg yn ychwanegol at y brif ffrwd neu ddysgu craidd ac sy'n gweithredu ar ôl oriau ysgol ac ar benwythnosau. Gallant hefyd gymryd ffurf canolfannau hyfforddi neu ddysgu (sy'n gallu gweithredu ar unrhyw adeg o'r dydd), ysgolion rhan-amser fel y disgrifir yn 1.3 uchod, neu glybiau.

1.5 Nid oes cynllun cofrestru neu arolygu ar waith ar gyfer lleoliadau o'r fath ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen hon yn nodi syniadau cyfredol Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ac yn gwahodd ymatebion gan bartïon â diddordeb.

1.6 Rydym yn ystyried cynnig cynllun cofrestru ac arolygu ar gyfer rhai o leoliadau addysg y tu allan i'r ysgol. Nid ydym eisiau gosod beichiau diangen. Fodd bynnag, yr ydym eisiau galluogi camau i'w cymryd lle mae lleoliadau yn methu â diogelu a hyrwyddo lles plant, sydd yn cynnwys methu â diogelu rhag niwed

1.7 . Er mwyn osgoi amheuaeth, ni chynigir i reoleiddio addysg y mae rhieni yn rhoi yn eu cartrefi eu hunain i'w plant eu hunain neu i'w gwneud yn ofynnol i'r rhieni hynny sy'n darparu addysg o'r fath i gofrestru. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y byddai'r lleoliadau sy'n darparu addysg y tu allan i'r ysgol i gefnogi addysg yn y cartref yn disgyn o fewn y cynllun.

---

[1] Ysgolion sy'n darparu addysg llawn amser I 5 new fwy o blant o oedran ysgol gorfodol, neu un plenty o'r fath sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig neu sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Gweler http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/independent-schools/?skip=1&lang=cy neu wybodaeth bellach ar y gofynion cofrestru.

1.8 At ddibenion y cynnig hwn, ein syniadau presennol ar hyn o bryd yw ein bod am leoliadau sy’n bodloni'r meini prawf canlynol i ddisgyn o fewn y system:

- Unrhyw leoliad addysg y tu allan i'r ysgol sy’n darparu hyfforddiant neu gyfarwyddyd i blant dan oed 19 oed yng Nghymru nad sydd yn addysg gartref neu ysgol, coleg, ddarparwr gofal plant cofrestredig; (ar gyfer y dibenion hyn 'ysgol' yn golygu pob ysgol a gynhelir neu annibynnol ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae 'ysgol' hefyd yn cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir. Mae 'coleg' yn golygu colegau addysg bellach a cholegau chweched dosbarth);

ac sy'n:

- Darparu dysgu 'dwys', hyfforddiant neu gyfarwyddyd i blant hyd at 19 oed ar gyfer nifer penodol o oriau yr wythnos. (Ein syniadau presennol yw y dylai hyn fod yn unrhyw beth sy'n golygu bod plentyn unigol yn mynychu am 6 awr neu fwy yr wythnos. Rydym hefyd yn dymuno i ddal lleoliadau sy’n darparu dysgu ‘dwys’, hyfforddiant neu gyfarwyddyd am 6 awr neu fwy yr wythnos dros gyfnod penodol o’r flwyddyn galendr yn unig – megis yn ystod gwyliau ysgol yn hytrach na phob wythnos,).

1.9 Yn y ddogfen hon cyfeiriwn at lleoliadau o'r fath fel 'lleoliadau cymwys y tu allan i'r ysgol'.

1.10 Rydym yn gwahodd darparwyr addysg sydd â diddordeb, awdurdodau lleol, a sefydliadau ac unigolion eraill i’n helpu ni i ehangu ein sylfaen o dystiolaeth am ein lleoliadau addysgol y tu allan i’r ysgol. Mae gennym ddiddordeb arbennig i glywed gan: awdurdodau lleol; rhieni a phobl ifanc sy’n defnyddio lleoliadau hyn; a’r rhai a sefydlodd ac yn gweithio neu’n gwirfoddoli yn y lleoliadau hyn.

1.11 Rydym yn croesawu ymatebion i lywio sut y dylai datblygu’r cynnig ymhellach i ddiogelu plant sy’n mynychu’r lleoliadau hyn rhag y risg o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed a sicrhau bod system gyfrannol o oruchwyliaeth yn cael ei rhoi ar waith i gadw plant yn ddiogel.

1.12 Bydd yr ymatebion yn llywio datblygiad ein polisi gyda’r nod o sicrhau bod ein cynigion yn briodol ac yn gymesur. Dydyn ni ddim eisiau gosod beichiau diangen. Fodd bynnag, yr ydym am alluogi camau sydd i’w cymryd os lleoliadau yn methu â diogelu a hyrwyddo lles plant.

1.13 Rydym wedi darparu amlinelliad o’r cynnig ac wedi llunio cyfres o gwestiynau yr hoffem gael atebion iddynt er mwyn cynyddu ein dealltwriaeth o leoliadau addysgol y tu allan i’r ysgol, a chwmpas ac effaith bosib y system arfaethedig i gofrestru lleoliadau o’r fath ac ymchwilio i bryderon sy’n codi.

## 2. Cefndir

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu pob plentyn a'u hamddiffyn rhag perygl o niwed, gan gynnwys mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Mae yno gyfrifoldeb i bawb ddiogelu plan't a'u hamddiffyn rhag niwed; mae pawb sy'n dod mewn cysylltiad â phlant a theuluoedd hefo rôl i'w chwarae.

2.2 Rydym yn cydnabod bod lleoliadau addysgol y tu allan i'r ysgol yn gallu darparu gweithgareddau ac addysg sy'n cyfoethogi i blant mewn sawl pwnc, gan gynnwys celf, iaith, cerddoriaeth, chwaraeon a chrefydd. Ceir llawer o enghreifftiau o leoliadau sy'n creu amgylchedd cadarnhaol i blant ffynnu ynddo, a chymryd rhan mewn cyfleoedd newydd a rhyngweithio gyda chyfoedion. Hefyd rydym yn ymwybodol bod llawer o leoliadau'n gweithio gydag ysgolion ac yn cymryd rhan mewn cynlluniau lleol neu genedlaethol i sicrhau eu bod yn darparu llefydd diogel i blant ddysgu. Rydym yn ymwybodol o enghreifftiau o ddarpariaeth ragorol mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Rydym eisiau i'r lleoliadau hyn barhau i ddarparu cyfleoedd dysgu i blant gan roi system yn ei lle sy'n galluogi ymyrryd yn yr achosion hynny ble mae'r lleoliadau y tu allan i'r ysgol sy'n gymwys yn methu diogelu a hybu lles plant.

## 3. Pam rydyn ni'n cynnig newid?

3.1 Ar hyn o bryd caiff ysgolion a darparwyr gofal plant eu rheoleiddio o dan y gyfraith amddiffyn plant, addysg a/neu ofal plant. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod disgyblion yn cael eu diogelu'n effeithiol. Mae arferion niweidiol, fel cosb gorfforol, wedi'u gwahardd ac mae gofynion yn eu lle i sicrhau bod archwiliadau cefndir yn cael eu cynnal ar staff. Nid yw'r mesurau diogelu hyn yn orfodol mewn lleoliadau addysgol y tu allan i'r ysgol ac, o ganlyniad, gall plant fod yn fwy agored i niwed ac i risg o gam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed.

3.2 Eisoes mae pryderon o'r natur yma wedi cael eu codi ynghylch rhai canolfannau hyfforddi rhan amser sy'n addysgu plant mewn eiddo a gododd nifer o bryderon difrifol am ddiogelu ac iechyd, gan gynnwys dull dianc annigonol os bydd tân. Codwyd pryderon hefyd am absenoldeb archwiliadau cefndir ar staff yn y lleoliadau hyn.

3.3 Mae cyd-barch a goddefgarwch y rhai sydd â gwahanol grefyddau a chredoau yn hollbwysig ac yma yng Nghymru mae gennym hanes hir o gefnogi y gwerthoedd hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn awyddus i geisio sicrhau bod y rhai sy'n gweithio mewn swyddi o ymddiriedaeth a dylanwad gyda phant a phobl ifanc yn parchu y rhai o wahanol ffydd a chredoau ac nad ydynt, wrth fynegi eu credoau unigol, yn hyrwyddo anoddefiad yn erbyn eraill. Mae'n iawn i ddisgwyl i blant fod mewn amgylchedd diogel a rhywle lle gallant ddysgu ein gwerthoedd sylfaenol o ddemocratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid yr unigolyn a'r cyd-barch a goddefgarwch o wahanol ffydd a chredoau.

## 4. Beth rydyn ni'n ei gynnig?

4.1 Rydym yn ystyried cynnig system cofrestru ac arolygu ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol sy'n gymwys a hynny drafodwyd ym mharagraff 1.8 uchod.

4.2 O dan y system arfaethedig:

- Gofyniad i leoliadau sy'n darparu addysg ddwys **gofrestru**, fel bod tryloywder am ble mae lleoliadau'n gweithredu;
- Pŵer i gorff **arolygu** lleoliadau y tu allan i'r ysgol sy'n gymwys er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n effeithiol a bod eu lles yn cael ei hyrwyddo'n briodol; a
- Pŵer i orfodi **sancsiynau** os yw lleoliad y tu allan i ysgol sy'n gymwys ac yn methu â diogelu a hywryddo lles plant, a allai gynnwys wahardd unigolion rhag gweithio gyda phlant a chau adeiladau.

## 5. Cwmpas y cais am wybodaeth – cyfres o gwestiynau

5.1. Mae pobl yn cyfeirio at leoliadau sy'n darparu addysg y tu allan i'r ysgol mewn nifer o ffyrdd. Gelwir lleoliadau o'r fath yn ysgolion atodol neu ategol weithiau (h.y. y rhai sy'n cynnig cefnogaeth neu addysg yn ychwanegol at ddysgu prif ffrwd neu graidd ac sy'n gweithredu ar ôl oriau ysgol ac ar benwythnosau). Gallant hefyd fod ar ffurf canolfannau hyfforddi neu ddysgu (a allai gael eu defnyddio'n aml yn lle addysg brif ffrwd a chefnogi addysg yn y cartref, ac sy'n gallu gweithredu ar unrhyw adeg o'r dydd), ysgolion rhan amser, neu glybiau. Rydym am i y mathau hyn o leoliadau y tu allan i ysgolion ddod o fewn y system arfaethedig.

5.2 Gan ystyried y ffocws ar addysg 'dwys' na fyddai unrhyw leoliadau sy'n darparu dosbarthiadau ad-hoc, neu ddosbarthiadau rheolaidd is na 6 awr yr wythnos yn cael ei ddal gan y cynnig. Fodd bynnag, ydym yn cynnig bod y lleoliadau sy'n darparu addysg 'dwys' (am chwe awr neu fwy yr wythnos) dros gyfnodau penodol megis gwyliau ysgolion yn hytrach nag phob wythnos o fewn cwmpas.

5.3 Fel y nodwyd mewn mannau eraill, does dim bwriad i reoleiddio addysg cartref. Fodd bynnag, rydym yn cynnig y byddai lleoliadau sy'n darparu addysg, hyfforddiant neu gyfarfwyddyd tu allan i'r ysgol i gefnogi addysg yn y cartref yn dod o fewn y cynllun.

5.4 Rydym hefyd yn cynnig i eithrio lleoliadau a gynhelir gan ddarparwyr o ddarpariaeth amgen (nad ydynt yn bodloni'r meini prawf 'ysgol annibynol') sy'n darparu ar gyfer plant sydd wedi cael eu cyfeithio atynt gan awdurdodau lleol neu ysgolion.[2] Mae hyn ar y sail bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn gyfrifol

[2] Mae atgyfeiriadau a wneir o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 1996, ac adran 29(3) o Ddeddf Addysg 2002.

am sicrhau ansawdd darpariaeth amgen yn eu hardaloedd ac am sicrhau bod plant yn cael eu rhoi yn y ddarpariaeth cywir.

## 6. Nodweddion

6.1 Mae plant yn mynychu ystod eang o leoliadau y tu allan i'r ysgol i gael cefnogaeth addysgol mewn amrywiaeth o bynciau craidd y cwricwlwm, ar gyfer addysg ddiwylliannol neu seiliedig ar ffydd, neu ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi. Bydd llawer iawn o leoliadau y tu allan i'r ysgol yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i blant yn eu hardal ac i'r gymuned gyfan.

6.2 Rydym yn ymwybodol bod y lleoliadau'n amrywio'n sylweddol - er enghraifft, o ran eu maint, y pwnc maent yn ei gynnig, eu dulliau addysgu ac iaith y cyfarwyddyd, boed yn sefydliadau sy'n cael eu rhedeg i wneud elw neu gan y gymuned a/neu'n wirfoddol, eu lleoliad ffisegol (boed yn ffurfiol neu anffurfiol, mewn eiddo ar les neu mewn lleoliad preswyl) ac ati. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth nid ysym yn bwriadu i ddeddfu mewn perthynas ag addysg yn y cartref. Fodd bynnag, os yw person yn darparu addysg mewn lleoliad cartref i blant ar wahân i'r rhai y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant ydym yn cynnig y gallai trefniadau o'r fath ddod o fewn y cynllun hwn. Hoffem gael gwybod mwy am yr ystod lawn o leoliadau a'u nodweddion: nifer y lleoliadau ym mhob awdurdod lleol; yr oriau gweithredu bob wythnos; yr oriau a fynychir gan bob myfyriwr bob wythnos; nifer y staff/gwirfoddolwyr; nifer y myfyrwyr; y math o eiddo maent yn gweithredu ynddo; y pynciau a ddysgir; a manteision cadarnhaol mynychu darpariaeth o'r fath.

6.3 Rydym yn ymwybodol bod llawer o leoliadau'n rhan o gymdeithas neu gorff ymbarél ehangach sy'n gallu darparu safonau diogelu sylfaenol ar gyfer cadw atynt. Hefyd bydd llawer o leoliadau'n dod o dan gynlluniau achredu gwirfoddol yn lleol neu'n genedlaethol er mwyn rhoi hyder yn y ddarpariaeth i rieni. Rydym yn awyddus i ddeall mwy am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael i leoliadau i ddarparu cefnogaeth pan fo angen, a pha gefnogaeth ychwanegol fyddai'n cael ei chroesawu.

## 7. Trothwyon

7.1 Pan fydd plant yn cael eu dysgu, yn enwedig pan maent yn treulio llawer o amser mewn lleoliad y tu allan i'r ysgol, rydym eisiau bod yn hyderus eu bod yn ddiogel ac yn cael eu haddysgu mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd mewn Cymru fodern a goddefgar ac i gyfrannu'n rhagweithiol at gymdeithas. Rydym eisiau sicrhau bod yr addysgu'n cyd-fynd â'n gwerthoedd ers amser maith o barch a goddefgarwch at y naill a'r llall, heb danseilio hynny. Rydym eisiau bod yn gymesur yn ein dull o weithredu gyda sicrhau goruchwyliaeth mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Dyma pam ein bod yn cynnig canolbwyntio'r adnoddau ar y llefydd ble mae plant yn derbyn hyfforddiant neu gyfarwyddyd dwys y tu allan i'r ysgol, sy'n nes at natur y lleoliadau eraill a reoleiddir ac sydd â photensial i gael mwy o effaith ar blant, gan beri mwy o risg i blant o bosib.

7.2 Ar hyn o bryd rydym yn ystyried bod addysg ddwys yn unrhyw beth sy'n cynnwys plentyn unigol yn mynychu lleoliad am 6 awr neu fwy yr wythnos, gan gofio y gallai hyn fod am fwy nag awr bob dydd ar ôl ysgol neu ar un neu ddau ddiwrnod dros y penwythnos. Hefyd mae rhai plant yn mynychu ysgolion neu ganolfannau hyfforddi rhan amser yn lle ysgolion prif ffrwd am rhwng 2 a 5 awr y dydd yn ystod yr wythnos, ble maent yn cael llawer o'u haddysg mewn pynciau cwricwlwm prif ffrwd. Rydym yn ymwybodol nad yw rhai lleoliadau'n gweithredu ar sail reolaidd neu wythnosol, ond y gallant eu sefydlu eu hunain i ddarparu addysg 'ddwys' ond yn llai aml, neu am gyfnod penodol o amser, er enghraifft yn ystod gwyliau ysgol neu yn ystod y cyfnod sy'n arwain at arholiadau. Byddem yn disgwl i leoliadau o'r fath ddod o fewn cwmpas.

7.3 Mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol gofrestru gyda Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys bodloni safonau rheoleiddiol cysylltiedig ag ansawdd yr addysg a ddarperir; lles, iechyd a diogelwch disgyblion; addasrwydd y perchnogion a'r staff; ac eiddo'r ysgol. Hefyd mae ysgolion annibynnol yn cael eu harolygu'n rheolaidd. Byddai'r trothwy arfaethedig yn cynnwys nifer o leoliadau nad ydynt yn bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru fel ysgolion annibynnol, ond sy'n darparu addysg, boed mewn ystod eang neu gyfyng o bynciau, gan gefnogi addysg yn y cartref yn aml. Gall rhai darparwyr preifat sy'n cynnig darpariaeth amgen berthyn i'r trothwy hwn hefyd ac rydym yn cynnig eithrio'r lleoliadau hynny sy'n darparu ar gyfer plant sydd wedi cael eu cyfeirio gan awdurdodau lleol neu ysgolion yn unig. Mae hyn ar y sail bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau ansawdd darpariaeth amgen yn eu hardaloedd ac am sicrhau bod plant yn cael eu rhoi yn y ddarpariaeth cywir.

7.4 Rydym yn croesawu safbwyntiau ar ddiffinio trothwy ar gyfer lleoliadau i fod yn rhan o gwmpas y cynnig hwn, gyda chyfeiriad at nifer yr oriau y mae plant yn mynychu, heb ystyried nifer oriau gweithredol y lleoliad. Gall hyn gynnwys lleoliadau sy'n darparu addysg ddwys am gyfnod penodol o amser, megis yn ystod gwyliau ysgol, yn hytrach na drwy gydol y flwyddyn Hefyd byddem yn croesawu safbwyntiau ar a fyddai'n briodol eithrio unrhyw ddarparwyr o'r oruchwyliaeth a'r rheoleiddio ychwanegol arfaethedig yn seiliedig ar unrhyw rai o nodweddion diffinio eraill y lleoliad (e.e. y ddarpariaeth ddysgu, lleoliad, nifer neu oedran y plant sy'n mynychu, ac ati), a'r farn ar sut mae sicrhau nad yw lleoliadau'n mynd ati i ddiwygio eu darpariaeth i osgoi rheoleiddio.

7.5 Byddwn yn ceisio sicrhau bod ein trothwy'n gymesur ac y gellir ei amrywio dros amser i ymateb i unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg neu'n newid.

## 8. Cofrestru ac arolygu

8.1 Mae cynllun cofrestru'n darparu tryloywder a gwelededd lleoliadau sydd, yn ei dro, yn gallu bod o fudd i'r darparwr ac i rieni sy'n anfon eu plant i'r lleoliadau hyn. Byddai gwybodaeth am y lleoliad ar gael yn gyhoeddus ac yn hwylus i rieni ei gweld, sydd â photensial, yn enwedig i ddarparwyr lleol bychain, i gynyddu'r galw am eu gwasanaethau. Bydd gan rieni'r plant sy'n

mynychu'r lleoliadau hyn fwy o hyder bod posib gweithredu os oes pryderon am les.

8.2 Byddai'n ofynnol i unrhyw leoliad sy'n cyrraedd y trothwy gofrestru gyda'i awdurdod lleol a byddai'n gymwys am ymchwiliad ac, os yw hynny'n briodol, ymyriad os oes pryderon wedi'u codi. Byddai awdurdodau lleol yn cael gweld gwybodaeth am leoliadau cofrestredig sy'n gweithredu yn eu hardal, gan alluogi iddynt gydweithio â darparwyr a'u cefnogi'n well, drwy gynnig neu eu cyfeirio at gyngor, arweiniad a hyfforddiant. Hefyd gallai hyn gefnogi awdurdodau lleol a Byrddau Diogelu Plant i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o ran diogelu plant yn eu hardal.

8.3 Gan gydnabod y byddai hyn yn rhoi baich newydd ar ddarparwyr, gyda llawer ohonynt yn rhai bach ac yn cael eu rheoli gan wirfoddolwyr, byddem yn sicrhau bod y gofyniad cofrestru'n llai manwl gyda lleoliadau'n darparu manylion sylfaenol am y perchnogion, y lleoliad, y ddarpariaeth addysg a nifer y plant. Rydym yn ystyried pa mor fuddiol fyddai creu porthol i hwyluso cofrestru, gyda'r budd o sicrhau bod lleoliadau'n darparu gwybodaeth mewn fformat cyson.

8.4 Fel nodwyd, bydd y broses gofrestru ei hun yn syml a heb fod yn rhy fanwl, heb unrhyw amodau gofynnol ymlaen llaw, ond byddai disgwyl i ddarparwyr newydd gofrestru cyn gweithredu. Byddai lleoliadau y tu allan i'r ysgol sy'n gymwys yn cael cyfnod rhesymol i gofrestru. \ni fydd unrhyw ffi am gofrestru. Ni fyddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n gweithredu ar lefel is na'r trothwy o oriau a benderfynwyd gofrestru, ond byddwn yn ystyried a oes modd iddynt wneud hynny ar sail wirfoddol, er mwyn codi eu proffil ac i gael cefnogaeth ychwanegol o bosib yn eu hardal. Ni fyddai darparwyr o'r fath sy'n gweithredu ar lefel is na'r trothwy'n cael eu harolygu.

8.5 Mae gennym ddiddordeb mewn safbwyntiau ar sut bydd y gofyniad cofrestru'n gweithredu'n ymarferol a'r goblygiadau i ddarparwyr ac i awdurdodau lleol.

8.6 Rydym yn croesawu safbwyntiau ynghylch pa gorff sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â swyddogaeth ymchwilio ar gyfer lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod gan y corff ymchwilio y pwerau deddfwriaethol angenrheidiol, yn ogystal ag adnoddau digonol a phriodol, i gyflawni'r rôl hon.

8.7 Cynigir bod arolygon yn seiliedig ar risg, a hynny naill ai fel ymateb i bryderon penodol a fynegir gan blant, rhieni a'r gymuned, neu am fod y corff archwilio yn samplu lleoliadau penodol, boed yn ôl math neu ranbarth. Ni chynhelid arolygiad o'r holl ddarparwyr sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer cofrestru fel mater o drefn. Ni fyddai yna asesiad chwaith o addasrwydd addysg na barn yn cael ei rhoi ar ansawdd yr addysgu. Mae'r dull o weithredu seiliedig ar risg wedi'i dargedu, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar y lleoliadau hynny sy'n methu diogelu a hybu lles plant.

8.8 Byddem yn awyddus i glywed safbwyntiau ar y system arfaethedig i arolygu ac ymchwilio i bryderon mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol.

## 9. Gweithgareddau gwaharddedig

9.1 Rydym yn disgwyl i bob lleoliad sy'n darparu gwasanaethau i blant weithredu er budd gorau plant a darparu gwasanaethau o safon uchel mewn amgylchedd diogel. Mae mesurau diogelu yn eu lle eisoes mewn ysgolion ac mewn darpariaethau gofal plant i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel a cheir safonau i ysgolion yn gysylltiedig ag ansawdd yr addysgu a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Rydym eisiau bod yn gymesur yn ein dull o weithredu wrth sicrhau bod lleoliadau y tu allan i'r ysgol sy'n gymwys yn darparu amgylchedd diogel. Byddem yn glir am y gyfres o weithgareddau a fyddai'n waharddedig mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol sy'n cyrraedd y trothwy ar gyfer cofrestru. Gellid rhoi gwybod am bryderon a godir am unrhyw rai o'r gweithgareddau gwaharddedig hyn i'r corff ymchwiliol a gallai'r arolygu arwain at weithredu.

9.2 Yn seiliedig ar y pryderon sydd wedi'u codi'n flaenorol a'u hysbysu am leoliadau y tu allan i'r ysgol, byddai'r gweithgareddau gwaharddedig yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol sy'n ceisio cadw plant yn ddiogel a hybu eu lles:

- Methu sicrhau diogelwch y plant yn eu gofal yn ddigonol, er enghraifft, methu cadw cofnodion sylfaenol a manylion cyswllt mewn argyfwng ar gyfer y plant sy'n mynychu.

- Penodi staff anaddas. Mae addysgu, os nad yw wedi'i oruchwylio, yn perthyn i'r diffiniad o 'weithgarwch a reoleiddir'[3]. Er enghraifft, mae'n drosedd caniatáu i unigolion y mae'n hysbys i chi eu bod wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant i gymryd rhan mewn gweithgarwch wedi'i reoleiddio, neu gymryd rhan mewn gweithgarwch wedi'i reoleiddio tra maent wedi'u gwahardd.

- Lletya plant mewn eiddo sy'n beryglus ac sy'n bygwth eu diogelwch neu eu lles.

- Addysgu annymunol, er enghraifft, addysgu sy'n tanseilio neu'n anghydnaws â gwerthoedd o barch a goddefgarwch y naill a'r llall, neu sy'n hybu safbwyntiau eithafol[4].

[3] Diffinnir hyn yn Neddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006. Gan siarad yn gyffredinol, credir mai'r gweithgarwch a reoleiddir sy'n berthnasol i blant yw: addysgu, hyfforddi, cyfarwyddyd, gofal neu oruchwyliaeth ar blant (ac eithrio os yw'r person sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau'n cael ei oruchwylio'n rheolaidd) os caiff ei wneud gan yr un person yn rheolaidd (h.y. unwaith yr wythnos neu fwy) neu os yw'r amod o ran cyfnod yn berthnasol (h.y. y gweithgarwch yn cael ei gynnal ar fwy na thridiau mewn cyfnod o 30 diwrnod neu rhwng 2am a 6am os yw hyn yn darparu cyswllt wyneb yn wyneb â phlant).

[4] Diffinnir eithafiaeth yn Strategaeth Gwrth-Eithafiaeth Llywodraeth y DU (a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2015) fel gwrthwynebiad lleisiol neu weithredol i werthoedd sylfaenol, gan gynnwys democratiaeth, awdurdod y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch y naill a'r llall i ffydd a chredoau gwahanol. Hefyd rydym yn ystyried galw am farwolaeth aelodau ein lluoedd arfog fel eithafiaeth.

- Cosb gorfforol. Rydym yn bwriadu sicrhau nad yw cosb gorfforol yn arfer a fabwysiedir mewn lleoliadau cymwys y tu allan i'r ysgol.

9.3 Rydym yn croesawu safbwyntiau ar a yw'r gweithgareddau gwaharddedig hyn yn cynnwys yn briodol yr ystod o bryderon a allai godi ac y dylid rhoi gwybod amdanynt ac ymchwilio iddynt mewn lleoliadau sy'n darparu addysg ddwys.

## 10. Sancsiynau

10.1 Os bydd ymchwiliad yn canfod tystiolaeth o weithgareddau gwaharddedig, bydd hyn yn arwain at ymyriad ac at ddefnyddio sancsiynau fel sy'n briodol. Byddai'r sancsiynau'n cynnwys y canlynol yn benodol:

- Pwerau i atal pobl rhag gweithio gyda phlant mewn lleoliad y tu allan i'r ysgol, neu reoli lleoliad o'r fath, yn debyg i'r pwerau presennol i wahardd athrawon a llywodraethwyr mewn ysgolion; a

- Pwerau i ofyn am i eiddo sy'n peri'r risg ddiogelu fwyaf i blant beidio â chael eu defnyddio mwyach ar gyfer dibenion penodol.

10.2 Rydym yn rhagweld dibynnu ar bwerau ac ysgogiadau sy'n bodoli eisoes os oes rhai ar gael. Er enghraifft, pe canfyddid gweithgarwch troseddol, byddai hwn yn cael ei gyfeirio i sylw'r heddlu; a byddai pryderon am iechyd a diogelwch yn cael eu cyfeirio, yn y lle cyntaf, i sylw'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, gall cyfeirio fel hyn arwain at weithredu pellach er mwyn sicrhau diogelwch y plant dan sylw ar unwaith, drwy ddefnyddio'r pwerau arfaethedig newydd. Byddai methu cofrestru os cyrhaeddir y trothwy'n sail ar gyfer gweithredu.

10.3 Byddem yn croesawu safbwyntiau ar y sancsiynau mwyaf priodol a pha gorff/gyrff ddylai gael pwerau i weithredu. Rydym yn awyddus hefyd i glywed eich barn ynghylch a ddylid cryfhau unrhyw gyfryngau a phwerau sy'n bodoli eisoes.